



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Tiroedd Comin 2006

**ARWEINIAD GWEITHDREFNOL AR GYFER
YMCHWILIADAU A GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS
YNGHYLCH CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER**

- **GWAITH AR DIR COMIN; a**
- **CHYFNEWID TIROEDD COMIN A MEYSYDD
PENTREF**



INVESTOR IN PEOPLE

Awst 2012



Arweiniad gweithdrefnol ar gyfer ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus ynghylch ceisiadau am ganiatâd ar gyfer

- gwaith ar dir comin; a
- chyfnewid tiroedd comin a meysydd pentref

Cyflwyniad	1
Penderfyniad i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus	2
Gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus	3
Hysbysu am drefniadau ymchwiliad neu wrandawriad	4
Hysbysebu'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad	5
Costau'r rhai sy'n bresennol	6
Cymorth gweinyddol	7
Datganiadau ysgrifenedig	8
Prawf o dystiolaeth mewn ymchwiliadau	9
Cyfarfodydd cyn ymchwiliad	10
Yn yr ymchwiliad	11
Llyfrgell ymchwiliad	12
Yn y gwrandawriad	13
Ymweld â safle	14
Cynrychiolaethau hwyr	15
Penderfyniad am y cais	16

ARWEINIAD GWEITHDREFNOL AR GYFER YMCHWILIADAU A GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS YNGHYLCH CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER

- **GWAITH AR DIR COMIN; a**
- **CHYFNEWID TIROEDD COMIN A MEYSYDD PENTREF**

Sylwer: Mae'r wybodaeth sydd yn yr arweiniad hwn yn ymwneud â gweithdrefnau yng [Nghymru yn unig](#).

Dylai'r daflen hon gael ei darllen ochr yn ochr â'r daflen 'Trosolwg Cyffredinol i ymgeiswyr o dan a16 ac a38'.

Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi, ond nid oes unrhyw statws cyfreithiol yn perthyn iddi.

1.Cyflwyniad

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu sawl un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â rhoi caniatâd o dan ddeddfwriaeth tiroedd comin a meysydd pentref a ddyluniwyd i ddiogelu'r ardaloedd hyn yn benodol. Dyma'r mathau o ganiatâd a geisir amlaf:

Adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006: Mae angen caniatâd Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw 'waith cyfyngedig' ar dir comin cofrestredig fel arfer. Mae gwaith cyfyngedig yn waith sy'n atal neu'n amharu ar fynediad i dir neu fynd drosto. Gall gwaith o'r fath gynnwys gosod ffens, codi adeiladau, tyllu ffosydd neu roi wyneb newydd ar dir gyda tharmac neu ddeunyddiau tebyg.

Adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971: Mae deddfwriaeth arbennig ar gyfer tiroedd comin y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen arnynt. Mae Adran 23(1) Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971 yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i wneud gwaith ar dir comin a ystyrir yn waith 'dymunol at ddiben darparu, neu wella, cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau'r eiddo, yn ogystal ag er lles y bobl sy'n mynd yno", ond hwyrach y bydd angen caniatâd Gweinidogion Cymru o dan adran 23(2).

Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006: Gall perchnogion tiroedd comin neu feysydd pentref cofrestredig gyflwyno cais i ddadgofrestru tir. Rhaid iddynt gyflwyno cais ar yr un pryd i gofrestru tir arall fel tir comin neu faes i gymryd ei le. Os yw'r tir sydd i'w ddadgofrestru'n llai na 200 metr sgwâr, hwyrach na fydd angen cofrestru tir i gymryd ei le (adran 16(4) a (7)).

Adran 19 Deddf Caffael Tir 1981: Gall awdurdodau lleol, ymgwymerwyr statudol (e.e. cwmnïau cyfleustodau) neu adrannau'r llywodraeth brynu tir yn orfodol. Mae Adran 19 Deddf Caffael Tir 1981 yn datgan pan fo gorchymyn prynu gorfodol (CPO) yn awdurdodi unrhyw dir sy'n rhan o dir comin (neu le agored neu randir tanwydd neu faes) i gael ei brynu'n orfodol, rhaid i'r gorchymyn gadw at weithred arbennig gan y Cynulliad oni bai bod Gweinidogion Cymru'n rhoi tystysgrif o dan adran 19 Deddf 1981.

Paragraff 6 yn Atodlen 3 Deddf Caffael Tir 1981: Gall awdurdodau lleol, ymgwymerwyr statudol (e.e. cwmnïau cyfleustodau) neu adrannau'r llywodraeth gaffael hawliau dros dir yn orfodol. Mae Paragraff 6 yn Atodlen 3 Deddf Caffael Tir 1981 datgan pan fo gorchymyn prynu gorfodol (CPO) yn awdurdodi caffael hawliau unrhyw dir sy'n rhan o dir comin (neu le agored neu randir maes), rhaid i'r gorchymyn gadw at weithdrefn arbennig gan y Cynulliad oni bai bod Gweinidogion Cymru'n rhoi tystysgrif o dan baragraff 6 yn Atodlen 3 Deddf 1981.

Diben y nodyn hwn yw rhoi arweiniad am y gweithdrefnau a ddilynir wrth gynnal ymchwiliad neu wrandawriad ynghylch cais am ganiatâd ar gyfer tir comin neu faes pentref. Gall ymchwiliadau cyhoeddus ar y cyd gael eu cynnal mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd pan mae cais o dan adran 19 Deddf Caffael Tir 1981 yn cael ei ystyried ochr yn ochr â gorchymyn prynu gorfodol. Mae rheolau, amserlenni a gweithdrefnau statudol gwahanol yn debygol o fod yn berthnasol mewn achosion o'r fath. Gan amlaf, bydd y corff arweiniol sy'n gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad ar y cyd yn cyflwyno ei arweiniad gweithdrefnol ei hun.

2. Penderfyniad i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am ganiatâd mewn cysylltiad â thir comin neu feysydd pentref wedi'u dylunio i roi'r cyfle i'r cyhoedd leisio'u barn. Rhaid i bob ymgeisydd hysbysebu eu cynigion a gwneud copïau o'r cynlluniau ar gael yn lleol er mwyn i'r cyhoedd allu mynd ati wedyn i gyflwyno cynrychiolaethau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Rydym yn anfon copïau o unrhyw gynrychiolaethau i'r ymgeisydd ac yn gofyn am ymateb. Ar sail yr ohebiaeth hon, gallwn benderfynu pa un ai cynnal ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus fyddai'r ffordd orai o gael yr holl wybodaeth angenrheidiol am yr achos.

Mae gwrandawriad yn drafodaeth o dan arweiniad Arolygydd sy'n ystyried y materion amrywiol sy'n gysylltiedig. Mae natur gwrandawriad yn llai ffurfiol nag ymchwiliad. Mae hefyd yn fyrrach fel arfer ac yn parhau llai na diwrnod.

Mae ymchwiliadau'n fwy ffurfiol na gwrandawriadau. Gallent fod dros ddiwrnod o hyd a gall tystion gael eu croesholi. Mae'r rhain fwyaf addas gan amlaf ar gyfer achosion lle ceir llawer o dystiolaeth neu nifer helaeth o wrthwynebiadau. Mae gwrandawriadau ac ymchwiliadau'n agored i'r cyhoedd ac mae croeso i unrhyw un siarad ynddynt gyda chaniatâd yr Arolygydd.

Ein penderfyniad ni yw cynnal ymchwiliad neu wrandawriad ai peidio. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail pob achos unigol a bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau dan sylw. Gallem benderfynu penodi Arolygydd i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad:

- os oes amrywiaeth eang o wrthwynebiadau wedi'u derbyn mewn ymateb i'r cais;
- os yw manylion yr achos yn arbennig o gymhleth; neu
- os yw'n edrych fel petai cynnal ymchwiliad yw'r unig ffordd o gael y wybodaeth sydd ei hangen i allu dod i benderfyniad deallus am y cynigion.

Bydd ymchwiliad neu wrandawriad yn rhoi'r cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno ei achos yn llawn i'r Arolygydd. Bydd hefyd yn galluogi'r bobl sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig i leisio eu barn.

3. Gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau a gwrandawriadau o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006 ac adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971 wedi'u hesbonio yn Rheoliadau Gwaith ar Diroedd Comin, etc. (Gweithdrefn) (Cymru) 2012 OS 2012 Rhif 737 (W.97).

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau adran 16 wedi'u nodi yn Rheoliadau Dadgofrestru a Chyfnwid Tir Comin a Meysydd Tref neu Bentref (Gweithdrefn) (Cymru) 2012 OS 2012 Rhif 738 (W.98).

Nid yw'r Rheoliadau uchod yn nodi gweithdrefnau manwl iawn, ac mae'r arweiniad canlynol yn seiliedig ar *Reolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif 1266)* a *Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawriadau) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif 1271)* i ategu'r gweithdrefnau hyn.

Diben yr arweiniad hwn yw egluro rhai o'r gweithdrefnau a'u cysylltiad penodol â cheisiadau am ganiatâd mewn perthynas â thiroedd comin a meysydd pentref.

Os ceir cais o dan adran 19 Deddf Caffael Tir 1981, neu baragraff 6 yn Atodlen 3 Deddf 1981, bydd adran 10 *Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992* yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad. Ar ben hynny, mae adran 5 Deddf 1981 hefyd yn berthnasol yn ogystal ag adran 250 *Deddf Llywodraeth Leol 1972* (parthed cyflwyno tystiolaeth mewn ymchwiliadau).

4. Hysbysu am drefniadau ymchwiliad neu wrandawriad

Os ydym yn penderfynu cynnal ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus, byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd, y gwrthwynebwyr yn ogystal ag ymgynghoreion eraill fel Cymdeithas y Mannau Agored. Byddwn yn pennu dyddiad ar gyfer yr ymchwiliad ac yn penodi Arolygydd.

Byddwn yn pennu dyddiad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad cyn gynted ag y bo modd ac yn cysylltu â'r ymgeisydd ynghylch y trefniadau manwl a pha gamau y bydd angen iddynt eu cymryd. Byddwn yn cadarnhau'r holl drefniadau yn ysgrifenedig wedi hynny. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i gael gwybod am drefniadau'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad o leiaf 6 wythnos ymlaen llaw. Gofynnir i ymgeiswyr awgrymu rhywle addas i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad yn yr ardal. Ar ôl cytuno ar ddyddiad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad a pha mor hir y bydd yn para yn ôl pob tebyg, disgwylir i'r ymgeisydd fynd ati ac archebu'r lleoliad ar gyfer nifer y diwrnodiau y bydd ei angen. Disgwylir i'r ymgeisydd dalu costau llogi'r lleoliad. Byddai'r Arolygydd yn disgwyl i'r lleoliad fod ar gael rhwng 9:00 am a 5:00 pm. Bydd angen i'r lleoliad a ddewisir fod yn addas ar gyfer y gofynion yn nodyn cyfleusterau lleoliad yr ymchwiliad.

Mae nodyn cyfleusterau lleoliad yr ymchwiliad ar gael yma:

http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue_and_facilities_for_public_inquiries_and_hearings_engwel.pdf

5. Cymorth gweinyddol

Disgwylir i ymgeiswyr ddarparu o leiaf un person i fynd i'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad i gynnig rhywfaint o gymorth gweinyddol i'r Arolygydd yn yr ymchwiliad, lle bo angen, ar gyfer tasgau fel llungopïo a gofalu am faterion 'domestig' (e.e. gwres/goleuadau) ac ati. Ni ddylai'r sawl sy'n cynnig cymorth gweinyddol fod yn rhywun sy'n bwriadu siarad gerbron yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad. Cewch fwy o wybodaeth yn y nodyn am Leoliadau a Chyfleusterau.

Hwyrach y bydd yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin / Awdurdod Lleol yn gallu eich cynghori am leoliadau a allai fod yn addas.

6. Hysbysebu'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad

Byddwn yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i gadarnhau trefniadau'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad yn ffurfiol. Rhaid hysbysebu ymchwiliadau a gwrandawriadau a byddwn yn rhoi geiriad yr hysbysiad o'r ymchwiliad neu'r ymchwiliad i'r ymgeisydd er mwyn iddo/iddi ei gyhoeddi. Rhoddir yr hysbyseb yn yr un papur newydd lleol â lle hysbysebwyd y cais gwreiddiol fel arfer. Cyhoeddir yr hysbysiad o leiaf 6 wythnos cyn dyddiad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad. Dylai'r ymgeisydd hefyd ddangos hysbysiad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad yn lleol yn ogystal ag anfon yr hysbysiad at bawb sydd wedi gwneud cynrychiolaethau. Ar yr un adeg, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad ar y porthol cynllunio (www.planningportal.gov.uk).

Rhaid i'r ymgeisydd anfon copi atom o'r hysbysiad a gyhoeddwyd a rhoi cadarnhad ysgrifenedig i ni fod yr hysbysiadau wedi'u harddangos a bod y dogfennau ar gael i'w gweld. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu copïau ychwanegol o'r dogfennau a arddangosir os cyflwynir cais i wneud hynny.

Os nad yw'r hysbysiad wedi'i gyhoeddi neu ei arddangos ar yr adeg gywir, bydd yn rhaid aildrefnu'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad.

7. Costau'r rhai sy'n bresennol

Rhaid i'r ymgeisydd, y cyngorwyr cyfreithiol ac unrhyw un arall sy'n mynd i'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad dalu eu costau a'u treuliau eu hunain.

8. Datganiadau ysgrifenedig

Gofynnir i ymgeiswyr baratoi datganiad i ategu eu cais gan nodi'n llawn y rhesymau pam eu bod o'r farn bod y cynigion yn angenrheidiol ac yn briodol. Dylai hwn fod ar gael er mwyn i'r cyhoedd ei weld (yn ogystal â chopïau o'r cais gwreiddiol a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd) a dylid cyflwyno copi ohoni i ni o leiaf 6 wythnos, yn ddelfrydol, cyn yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad. Os yw'r datganiad yn cynnwys dros 1,500 o eiriau, dylai fod crynodeb ohono hefyd. Dylai'r crynodeb adlewyrchu cynnwys y datganiad ac ni ddylai gyflwyno tystiolaeth newydd. Dylai'r ymgeisydd anfon copi o'r datganiad neu'r crynodeb pan mae gwrthwynebwyr neu unigolion eraill â diddordeb yn gofyn amdano.

9. Prawf o dystiolaeth mewn ymchwiliadau

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i'r prif bartïon sy'n gysylltiedig â chais gyflwyno prawf o dystiolaeth. Fodd bynnag, os oes gan yr ymgeisydd neu unrhyw un o'r tystion ddatganiadau fydd yn cael eu darllen ar goedd yn yr ymchwiliad, caiff y rhain eu hystyried fel 'prawf o dystiolaeth'. Dylid cyflwyno dau gopi, wedi'u rhwymo neu mewn ffeil cylch rhwymo, i ni o leiaf 4 wythnos cyn dechrau'r ymchwiliad. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu a gaiff datganiadau na chafodd eu cyflwyno mewn pryd eu hystyried. Os yw'r datganiad yn cynnwys dros 1,500 o eiriau, dylai fod crynodeb ohono hefyd. Dylai'r crynodeb adlewyrchu cynnwys y datganiad ac ni ddylai gyflwyno tystiolaeth newydd. Os darperir crynodeb, dim ond hwn a ddarllenir yn yr ymchwiliad fel arfer.

Nid anfonir copïau o ddatganiadau at bartïon eraill fel arfer gan nad oes cyfeiriad yn y rheoliadau at broses ffurfiol o gyfnewid tystiolaeth rhwng y partïon cyn yr ymchwiliad.

10. Cyfarfodydd cyn ymchwiliad

Os oes nifer helaeth o bobl eisiau mynd i'r ymchwiliad neu os yw'r achos yn un un arbennig o gymhleth, gallem drefnu cyfarfod cyn-ymchwiliad. Byddwn yn hysbysu'r partïon os ydym yn penderfynu gwneud hynny a byddwn yn egluro beth fydd y cyfarfod yn ei drafod. Cynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad gan yr Arolygydd a benodwyd a dim ond materion megis ym mha drefn y bydd yr ymgeisydd a phobl eraill yn cyflwyno eu tystiolaeth fydd yn cael eu trafod. Ni fydd y cyfarfod yn sôn am fanylion y cynrychiolaethau na'r achos.

Os bydd yr Arolygydd yn gofyn am fwy o wybodaeth gan y partïon yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad, rhaid ei chyflwyno i ni o fewn yr amser a nodir gan yr Arolygydd. Mae'n ddefnyddiol i'r Arolygydd wybod bryd hynny pwy sy'n debygol o ymddangos yn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, os na chyflwynir enw yn y cyfarfod

cyn-ymchwiliad, bydd yr unigolyn yn parhau i allu siarad yn yr ymchwiliad cyn belled bod yr Arolygydd yn fodlon.

11. Yn yr ymchwiliad

Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar drefn yr ymchwiliad, gan gynnwys pwy fydd yn cael eu galw i siarad, ym mha drefn ac am ba mor hir. Bydd yr Arolygydd yn dechrau'r ymchwiliad drwy gyhoeddi'r pwnc ac yn gofyn am enwau pawb sy'n dymuno siarad. Bydd wedyn yn mynd ati i egluro'r gweithdrefnau, sut caiff yr ymchwiliad ei gynnal ac yn nodi'r prif faterion i'w hystyried.

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad gadw at yr un rheolau fel bod y weithdrefn yn deg i bawb. Bydd yr Arolygydd am wneud yn siŵr ei fod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i lywio'r penderfyniad. Gan amlaf, bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno achos yn y lle cyntaf ac wedyn yn galw ar unrhyw dystion. Gall yr Arolygydd ofyn cwestiynau cyn penderfynu caniatáu i unrhyw wrthwynebwyr, cominwyr cofrestredig neu eraill sydd â diddordeb wneud yr un peth. Mae'r gwrthwynebwyr yn cyflwyno eu hachos yn yr un modd a gall yr ymgeisydd a'r Arolygydd ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt iddynt hwy a'u tystion. Mae gan yr ymgeisydd yr hawl i wneud datganiad i gloi a bydd yn cael y gair olaf. Mae hyn yn eu galluogi i ddweud wrth yr Arolygydd am y pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod y cwestiynau. Ni ellir cyflwyno dadleuon newydd bryd hynny.

Mae gan bawb sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad cyhoeddus yr hawl i ofyn i gyfreithiwr neu unrhyw un arall i gyflwyno eu hachos, ond nid yw hyn yn ofynnol. Os nad yw grŵp o wrthwynebwyr wedi'u cynrychioli'n ffurfiol, hwyrach y byddai'n ddefnyddiol pe byddai un llefarydd yn siarad ar eu rhan ac yn gofyn cwestiynau i dystion eraill.

Mae pob gwrthwynebiad a chynrychiolaeth ysgrifenedig yr ydym yn eu derbyn ar gael i'w gweld gan yr Arolygydd. Os nad yw gwrthwynebydd yn gallu bod yn bresennol mewn ymchwiliad, gallant drefnu i rywun arall eu cynrychioli yn yr ymchwiliad neu, fel arall, gallant gyflwyno mwy o gynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Arolygydd cyn, ac yn ystod, yr ymchwiliad. Os caiff datganiadau neu gynrychiolaethau ychwanegol eu cyflwyno, dylai'r partion ganiatáu amser er mwyn i'r Arolygydd allu eu darllen. Mae'n bosibl na fydd yr Arolygydd yn gweld tystiolaeth sy'n cyrraedd y swyddfa o fewn saith diwrnod cyn dechrau ymchwiliad.

Yr Arolygydd sydd i benderfynu a gaiff posteri neu ddeunydd arall eu harddangos yn y lleoliad. Gan ddibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael yno, hwyrach y bydd modd i'r partion roi cyflwyniad tafluniedig, ond yr Arolygydd, unwaith eto, sydd i benderfynu ar hynny. Dylid cyflwyno unrhyw ddeunydd gweledol o leiaf 4 wythnos cyn yr ymchwiliad fel copïau papur maint A4 os yw'r Arolygydd am ei ystyried fel tystiolaeth. Dylai'r ymgeisydd a thystion eraill sy'n bwriadu cyflwyno datganiadau neu brawf o dystiolaeth ddod â chopïau gyda nhw er mwyn iddynt allu cael eu dosbarthu. Dylai'r ymgeisydd ddarparu map arddangos hefyd sy'n dangos y cynigion yn fanwl.

Mewn rhai amgylchiadau, hwyrach y bydd angen i'r Arolygydd ohirio'r ymchwiliad a'i ail-agor yn ddiweddarach. Os bydd hyn yn angenrheidiol, bydd yr Arolygydd yn gwneud cyhoeddiad yn yr ymchwiliad i egluro'r rhesymau.

12. Llyfrgell yr ymchwiliad

Mewn ymchwiliadau, bydd o ddefnydd i'r Arolygydd pe byddai'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais ar gael i'w gweld drwy gydol yr ymchwiliad gan y rhai sy'n cymryd rhan a gwylwyr.

13. Yn y gwrandawriad

Fel gydag ymchwiliadau, mae gwrandawiadau'n agored i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc dan sylw. Fe'i cynhelir mewn modd tebyg i ymchwiliadau, ond ni fydd tystion yn cael eu croesholi'n ffurfiol. Mae'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr yn cyflwyno eu hachos yn rhan o drafodaeth a arweinir gan yr Arolygydd.

Ni ddisgwylir cynrychiolaethau ffurfiol (gan gyfreithiwr nac unrhyw un arall) mewn gwrandawiadau fel arfer. Os yw grŵp o wrthwynebwyr yn gwrthwynebu yn yr un modd, hwyrach y byddai'n ddefnyddiol dewis llefarydd.

Fel yn yr ymchwiliadau, mae pob gwrthwynebiad a chynrychiolaeth ysgrifenedig yr ydym yn eu derbyn ar gael i'w gweld gan yr Arolygydd. Os caiff datganiadau neu gynrychiolaethau ychwanegol eu cyflwyno, dylai'r partïon ganiatáu amser er mwyn i'r Arolygydd allu eu darllen. Mae'n bosibl na fydd yr Arolygydd yn gweld tystiolaeth sy'n cyrraedd y swyddfa o fewn saith diwrnod cyn dechrau gwrandawriad.

14. Ymweld â safle

Bydd yr Arolygydd fel arfer yn ymweld â safle'r cais a'r hyn sydd o'i gwmpas ar ei ben ei hun cyn i'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad ddechrau. Os yw'r Arolygydd yn bwriadu ymweld â safle gyda phartïon eraill, bydd yn cyhoeddi yn ystod yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad pryd mae'n bwriadu gwneud hynny. Wrth ymweld â safle gyda phartïon eraill, bydd yr Arolygydd yn gofyn a hoffai'r parting dynnu ei sylw at unrhyw beth am y safle, ond ni fyddant yn cael dweud unrhyw beth am y cynigion eu hunain.

15. Cynrychiolaethau hwyr

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Arolygydd yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd ar ôl i'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad ddod i ben. Mewn achos mor eithriadol, bydd y partïon eraill yn cael copi o'r gynrychiolaeth hwyr.

16. Penderfyniad am y cais

Ceisiadau o dan a38

Ar ôl ymchwiliad neu wrandawriad, bydd yr Arolygydd yn gwneud penderfyniad am y cais – oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi dynodi mai nhw fydd yn gwneud penderfyniad am y cais. Mewn achos o'r fath, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru. Ar ôl gwneud penderfyniad am y cais, anfonir llythyr am y penderfyniad at yr ymgeisydd a bydd pawb a gyflwynodd gynrychiolaethau ysgrifenedig yn cael copi ohono. Bydd y llythyr hwn ar gael ar ein gwefan hefyd a gall unrhyw un a aeth i'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad ofyn am gopi o'r llythyr drwy nodi hynny ar y gofrestr.

Ceisiadau o dan a16

Bydd yr Arolygydd yn anfon adroddiad at Weinidogion Cymru. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys casgliadau am y materion a godwyd yn ogystal ag argymhellion ynglŷn â chaniatáu'r cais ai peidio.

Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried popeth sy'n berthnasol i'r cais ond nid oes rhaid iddynt dderbyn argymhelliad yr Arolygydd. Hwyrach y byddant yn rhoi mwy o bwyslais ar fater neu faterion penodol na wnaeth yr Arolygydd a gallai hynny beri iddynt ddod i gasgliadau gwahanol i rai'r Arolygydd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru yn anghytuno ag argymhelliad yr Arolygydd ynghylch achos am eu bod yn ystyried tystiolaeth newydd a gyflwynwyd ar ôl yr ymchwiliad, neu am eu bod yn anghytuno â chanfyddiadau ffeithiol yr Arolygydd, byddant yn rhoi'r cyfle i'r partion fu'n gysylltiedig â'r cais i roi eu barn am yr anghytundeb hwn a'r rhesymau drosto cyn y caiff penderfyniad ei wneud. Os oes angen, gellir ail-agor ymchwiliad neu wrandawriad.

Un o swyddogion Llywodraeth Cymru, yn gweithredu gydag awdurdod Gweinidogion Cymru, fydd yn gwneud penderfyniadau am y math hwn o gais fel arfer.

Cewch fwy o wybodaeth am diroedd comin a meysydd tref a phentrefi, gan gynnwys gweithdrefnau ceisiadau, gan:

Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Adeilad y Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

